**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru**

# Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Yn gynnar 2019 cymeradwyodd Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru gytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol. Mae'r cytundeb[1] yn cynnwys y canlynol:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol gan gynnwys fforymau gweinidogol; (a chyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel weinidogol, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth); a
- darparu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r gwaith cysylltiadau rhynglywodraethol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Senedd yn rheolaidd yn y cyfarfodydd llawn ac yn y pwyllgorau a thrwy ddatganiadau a gohebiaeth. Mae ein gohebiaeth, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyfarfodydd a chytundebau rhynglywodraethol, ar gael ar wefan y Senedd.[2]

## Crynodeb

Y cyfrwng ffurfiol ar gyfer unrhyw gyfathrebu rhynglywodraethol yw Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, nad yw wedi cyfarfod mewn cyfarfod llawn ers mis Rhagfyr 2018.

Mae gennym berthynas gref â'r llywodraethau datganoledig eraill, ac rydym yn croesawu’n fawr y ffaith i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ddychwelyd ar ddechrau 2020.

Mae lefelau’r ymgysylltu a’r ymwneud â Llywodraeth y DU yn amrywio.

## Cysylltiadau Rhynglywodraethol

*Cyfansoddiad*

Yn 2019, cyhoeddwyd *Diwygio Ein Hundeb*[3], sy'n cyfrannu at y ddadl am ddyfodol hyfyw a deinamig i'r DU.

Rydym wedi parhau i gyflwyno achos cadarn dros gael pwerau pellach mewn meysydd strategol bwysig, gan gynnwys Cyfiawnder (a gefnogwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru[4]).

[1] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12097/cr-ld12097-w.pdf
[2] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25602
[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/diwygio-ein-hundeb-cydlywodraethu-yn-y-du.pdf
[4] https://llyw.cymru/adroddiad-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru

Gwnaed llawer iawn o waith i ddylanwadu ar yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol ac i ddatblygu'r model cydlywodraethu rhwng gweinyddiaethau'r DU[5].

Fe wnaeth y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, yn ei Uwchgynadleddau a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Iwerddon[6], yn eu tro, ac ymhlith eraill y cyfarfod Gweinidogol ar bolisi'r Blynyddoedd Cynnar a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd[7], ddarparu fforwm pwysig ar gyfer trafodaethau. Credwn y dylai'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig dyfu yn ei bwysigrwydd dros amser yng ngoleuni'r newidiadau sydd ar y gweill yn y cyd-destun gwleidyddol ehangach.

*Pontio Ewropeaidd*

Estynnwyd y dyddiad ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE dair gwaith (29 Mawrth, 12 Ebrill a 31 Hydref), ac fe'i cadarnhawyd ar gyfer 31 Ionawr 2020.

Gwrthododd y Senedd, yn ogystal â Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, roi cydsyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Aeth Llywodraeth y DU ymlaen â'r ddeddfwriaeth serch hynny, gan nodi eu bod yn amgylchiadau unigol, penodol ac eithriadol.

Parhawyd i gefnogi buddiannau Cymru, fel y nodir yn ein dogfennau polisi, yn fwyaf diweddar yn *Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru*[8]. Mae ein cynigion yn parhau i nodi'r hyn y credwn fyddai'r canlyniad gorau ar gyfer Cymru o fewn cyd-destun y negodiadau a gynhaliwyd – yn fwyaf diweddar mewn cysylltiad â'r Datganiad Gwleidyddol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r UE.

Drwy ein cysylltiadau rhynglywodraethol, ceisiwyd sicrhau bod gennym rôl glir yn y negodiadau â'r Ewropeaidd, a chytundebau masnach yn y dyfodol. Roeddem yn ymwneud yn helaeth â sicrhau marchnad fewnol agored yn y DU a fframweithiau cyffredin mewn meysydd lle y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd.

Buom yn gweithio i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb. Roedd ein paratoadau'n cynnwys datblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau llyfr statud gweithredol ar y diwrnod ymadael (gan gwblhau tua 50 o Offerynnau Statudol Cymru a rhoi cydsyniad i fwy na 150 o Offerynnau Statudol y DU), gweithio gyda Llywodraeth y DU ar brosiectau parodrwydd gweithredol, argyfyngau sifil posibl, a phrosiectau sy'n benodol i Gymru yn ychwanegol at y gwaith ar fesurau ledled y DU.

*Negodiadau Masnach y DU/UE a Gweddill y Byd*

Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol o gwbl yn y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) wedi parhau, ond mae gwaith y pwyllgor hwnnw yn bell o'r cylch

[5] https://www.gov.uk/government/publications/draft-principles-for-intergovernmental-relations
[6] https://www.britishirishcouncil.org/bic/summits
[7] https://www.britishirishcouncil.org/sites/default/files/communiqu%C3%A9s/Early%20Years%20Policy%20Cardiff%20%20Ministerial-%20Communique.pdf
[8] https://llyw.cymru/y-berthynas-rhwng-y-du-ar-ue-yn-y-dyfodol

gorchwyl, a oedd yn cynnwys: goruchwylio'r negodiadau a cheisio dod i gytundeb ar flaenoriaethau negodi. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i fwydo ein blaenoriaethau i'r trafodaethau ac yn dadlau'r achos dros y math o berthynas a fydd, ar sail y dystiolaeth, er budd gorau Cymru yn y dyfodol.

Yn wahanol i'r gwaith ymgysylltu ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, mae'r berthynas â'r Adran Masnach Ryngwladol ar negodiadau Gweddill y Byd yn llawer mwy adeiladol. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Fforwm Masnach Gweinidogol ers ei sefydlu'n gynharach yn y flwyddyn a chyfarfodydd Gweinidogol rheolaidd ddwywaith y flwyddyn. Cawsom gyfle i roi sylwadau ar y mandadau mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, ac rydym hefyd yn cael gweld a rhoi sylwadau ar y testun cyfreithiol sy'n cael ei gyflwyno yn y negodiadau.

*Cyllid*

Yng nghyd-destun dull mympwyol Llywodraeth y DU o ymdrin â chyllid cyhoeddus, ac ymadawiad anhrefnus y DU â'r UE, rydym wedi galw'n gyson am sicrwydd yng nghyfarfodydd y Gweinidogion Cyllid na fyddai Cymru yn derbyn ceiniog yn llai nag y byddem wedi'i ddisgwyl o fewn yr UE. Rydym wedi defnyddio cyfarfodydd pedairochrog y Gweinidogion Cyllid i ganolbwyntio ar faterion brys, megis llifogydd, lle rydym wedi pwyso ar Lywodraeth y DU am yr angen i gael cyllid ychwanegol er mwyn ymdrin â'r effaith y mae'n ei chael ar ein cymunedau.

Mae pandemig Covid-19 wedi dwysáu'r berthynas, wrth i gyfarfodydd y Gweinidogion Cyllid gael eu cynnal yn fwy aml, gyda ffocws ar yr ymateb cyllidol i'r pandemig gan gynnwys Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a phecyn Hunangyflogaeth Llywodraeth y DU. Drwy gydol y cyfnod, rydym wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ar ei chyhoeddiadau cyllid, y cynlluniau ar gyfer y Gyllideb a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan gynnwys pwyso am gael Datganiad Polisi Cyllid cryfach. Mae'n hanfodol ein bod yn cael yr eglurder hwn, er mwyn ein galluogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar anghenion pobl Cymru.

*Yr Economi, Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd*

Mewn perthynas ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU (BEIS), nid oedd cysylltiadau rhynglywodraethol a chydweithio wedi'u sefydlu'n gadarn, ac achosodd hyn broblemau o ran sicrhau ein bod yn chwarae rhan lawn wrth ddatblygu'r ymateb economaidd, ein gwydnwch busnes, ac wrth sicrhau ein bod yn parhau i elwa o gyllid i gefnogi busnesau, ymchwil ac arloesi. Gwnaed cynnydd drwy sefydlu cyfarfodydd pedairochrog Gweinidogol yn cwmpasu busnes a diwydiant, ac ynni a'r newid yn yr hinsawdd yn y drefn honno, ond nid oedd y rhain yn ddulliau difrifol o weithredu, gyda chyfarfodydd yn aml yn cael eu gohirio a'u canslo. Fodd bynnag, cafwyd ymgysylltu cyson rhwng swyddogion mewn perthynas â'r agweddau ar ymadawiad y DU â'r UE oedd yn ymwneud ag ynni a'r newid yn yr hinsawdd, a chydweithio agos yn enwedig ar Gynllun Masnachu Allyriadau arfaethedig y DU. Parhawyd i bwyso ar Weinidogion BEIS i geisio sicrhau cysylltiadau rhynglywodraethol a chydweithio gwell.

*Sgiliau a Chyflogadwyedd*

Galluogodd ymdrech gyfunol ar draws y pedair gwlad i roi cyhoeddusrwydd i'r neges 'Aros Gartref. Diogelu'r GIG. Achub Bywydau' fel rhan o'r ymateb cychwynnol i'r pandemig Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys dull ar y cyd o gefnogi ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr dysgu eraill i symud i ddysgu ar-lein ac ystyriaeth gychwynnol i arholiadau haf 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar bolisi sgiliau a chyflogadwyedd yn ogystal ag ar lefel weithredol, i sicrhau bod gweithgarwch yr Adran yn cyd-fynd â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Gwelwyd tystiolaeth arbennig o hyn gan y gwaith partneriaeth yn y Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedau, a'r Grwpiau Ymateb Cyflogaeth Rhanbarthol a ffurfiwyd fel ymateb cyflym i amodau marchnad lafur sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE. Mae cydweithio da yn digwydd rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Cymru'n Gweithio, gyda'r nod o adeiladu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a all gyfeirio dinasyddion at y cymorth cyflogadwyedd mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae'r pandemig Covid-19 wedi cynyddu lefel y cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod ymyriadau a gynllunnir yn gyflym gan Lywodraeth y DU yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol, yn hytrach na'i disodli neu ei dyblygu.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd yng ngharchardai Cymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mae'r trefniadau hyn yn galluogi perthynas waith agos a chynhyrchiol gyda HMPPS ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gysoni'r ddarpariaeth addysg â nifer o bolisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid, a'n Fframwaith Lleihau Troseddu 2018-23. Rydym hefyd wedi cyflawni yn erbyn nifer o argymhellion yn adolygiad Hanson o Addysg Carcharorion yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Dysgu Troseddwyr, mewn cydweithrediad â HMPPS.

*Addysg*

Cynhaliwyd sawl cyfarfod pedairochrog Gweinidogol i drafod materion sy'n effeithio ar bortffolio'r Gweinidog Addysg. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys dyfodol y cronfeydd strwythurol, parhau i gymryd rhan/trefniadau domestig amgen ar gyfer rhaglenni'r UE (Erasmus, Horizon), ffioedd myfyrwyr a mewnfudo.

Ategwyd hyn gan alwadau ffôn ad hoc i sefydlu cydberthnasau newydd gyda Gweinidog Addysg a Gweinidog Prifysgolion Llywodraeth y DU.

*Yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth, Bwyd*

Ar lefel Weinidogol, parhaodd y berthynas ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU (Defra) i fod yn gadarnhaol drwy gydol y cyfnod hwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Rhyng-Weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA) yn fwy rheolaidd, a chyfarfu'r Fforwm Manwethwyr, sy'n cynnwys manwerthwyr bwyd, Defra a Gweinidogion llywodraethau datganoledig, i drafod materion yn ymwneud â'r gadwyn cyflenwi bwyd a manwerthu ledled y DU.

Yn gyffredinol, roedd y berthynas waith â Defra ar ein paratoadau ar gyfer ymadael â’r Undeb Ewropeaidd yn gadarnhaol. Datblygwyd dull cydweithredol yn gynnar yn y broses i weithio ar feysydd blaenoriaeth, er bod faint o wybodaeth a rennir yn amrywio a'i bod weithiau’n brin neu’n cyrraedd ar y funud olaf. Parhaodd y cydweithio hwn i'r cyfnod pontio.

*Iechyd*

Roedd trafodaethau ar lefel Weinidogol yn cynnwys ymgysylltiad adeiladol ar y cyfan ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag ymadawiad y DU â’r UE. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau parodrwydd o ran meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol, sianelau cludo nwyddau a mewnforio, statws preswylydd sefydlog ac effeithiau ar y gweithlu (a oedd hefyd yn cwmpasu polisi pensiynau yn gynnar yn 2020), parodrwydd deddfwriaethol a gofal iechyd cyfatebol, a chyfraniad Cymru i drefniadau dan arweiniad Llywodraeth y DU (er enghraifft ar warysau a chyflenwad meddyginiaethau).

Y tu ôl i hyn, roedd y gwaith rhynglywodraethol ar gyfer ymadael â’r UE yn weithredol ar y cyfan, drwy fforwm cydgysylltu cyflenwadau yn cynnwys swyddogion arweiniol ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr, ac wedi'i ategu gan y gwaith manwl a wnaed drwy gysylltiadau'r GIG, yn enwedig rhwng Public Health England ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiogelu iechyd y cyhoedd, a rhwng NHS Supply Chain a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar stociau wth gefn a pharodrwydd cyflenwyr.

Tua diwedd mis Mawrth daeth rhywfaint o bwysau i'r amlwg mewn perthynas â’r diffyg cysylltiad rhwng negodiadau masnach (a gadwyd yn ôl i’r DU) a'u goblygiadau polisi mewn meysydd datganoledig; ac wrth i bwysau cyfarpar diogelu personol (PPE) ddod i’r amlwg ddiwedd mis Mawrth, wynebwyd heriau wrth weithredu’r tybiaethau a'r egwyddorion ar draws y DU gyfan, y cytunwyd arnynt er mwyn bod yn barod ar gyfer Brexit.

**Blaenoriaethau a Rhagolygon**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran meddwl cyfansoddiadol yn y DU, gan ddadlau'r achos dros gryfhau datganoli mewn cyhoeddiadau gan gynnwys ‘Sicrhau Dyfodol Cymru’, ‘Brexit a Datganoli’, a ‘Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU’.

Mae Pontio Ewropeaidd a Covid-19 wedi gwella gwybodaeth a chynyddu dealltwriaeth o rôl Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ym maes llywodraethu'r DU, ac wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau datganoli er mwyn sicrhau dyfodol yr Undeb.

Mae cyd-destun ymadawiad y DU â’r UE a’r pandemig Covid-19 yn gofyn am ddull cydweithredol ar draws llywodraethau'r DU yn seiliedig ar gydlywodraethu a pharch rhwng y ddwy ochr, parch cydradd, a chyfranogiad cydradd. Byddwn yn parhau i gynnal yr egwyddorion hyn wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU.

Drwy ein gwaith ar faterion cyfansoddiadol a chysylltiadau rhynglywodraethol byddwn yn parhau i geisio diogelu a chryfhau datganoli, ceisio cael canlyniad

cadarnhaol i'r Cyd-adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cael perthynas ddyfnach â'n partneriaid yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a gweithio gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig lle bynnag y bo modd i ddiwygio ein Hundeb.

**Mark Drakeford AS**

**Prif Weinidog Cymru**

**26 Hydref 2020**